# Cofnodion Cyngor Tref Nefyn 12/01/16, Ysgol Nefyn

Presennol

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Arfon Hughes | Bleddyn Evans | Gruffydd Williams | John Thomas | Huw Williams |
| Guto Williams | Sian Hughes | Megan Williams | Alan Griffiths | Glesni Jones (Clerc) |

1. *Ymddiheuriadau*

   Ashley Hughes  Dafydd Rhun  Catrin Roberts  Alan Jones  Sharon Williams

2. *Datgan buddiant ariannol neu personol*

   Dim

3. *Cofnodion 10fed o Rhagfyr 2015*

   Derbyniwyd y cofnodion yn gywir

4. *Traeth Nefyn ac Morfa Nefyn*

   Daeth Barry Davies o Gyngor Gwynedd i siarad ag aelodau'r Cyngor Tref yn y gobaith o ddatrys anghenion a phroblemau sy'n cael eu codi oddi wrth y traethau bob haf. Y brif broblem yw cerbydau yn gyrru ar y traeth a'r materion diogelwch gyda nid yn unig plant ifanc ond oedolion hefyd. Barry Davies wedi cysylltu gyda Geraint Brython yn gofyn iddo beth yw'r hawliau gyda cerbydau ar y traeth. Trafodwyd y byddai'n syniad da i osod arwyddion clir mawr yn amlinellu'r rheolau gan obaith byddai pobl yn glynu atynt.  Cytunwyd y byddai cyfarfod safle o fudd i'r ddwy ochr er mwyn dod i gytundeb beth ac yn ble mae angen rhybuddion a beth mewn gwirionedd a ellir ei wneud gyda'r hawliau sydd ar gael ynglŷn â datrys problemau cerbydau yn parcio ar y traeth. Gobeithio, erbyn y cyfarfod nesaf y byddai'r cyfarfod ar y safle wedi cael eu cynnal lle y gall y cynghorwyr adrodd yn ôl. Bydd hyn yn ein galluogi i fwrw ymlaen â'r newidiadau cyn i'r tymor ddechrau.

5. *Cronfa Cymunedau Arfordirol*

Llwybr Penrhyn Nefyn wedi ei gau yn dilyn tir lithiad dros ŵyl y Nadolig. Hwn yw'r prif lwybr arfordirol, felly mae'n hynod o bwysig bod y gwaith yn cael ei wneud i'r llwybr cyn gynted â phosib er mwyn ei ail agor. Hefyd bysa hyn wedi gallu cael ei osgoi os fysa'r llwybr wedi cael ei symud yn nol fel y gofynnwyd misoedd yn nol i Gyngor Gwynedd.

6. *Morwrol*

Wedi cael caniatad i symud y llwybr i fewn yn yr cae wrth yml Y Cliffs. Bydd wedyn yn ddarn o lwybr cyhoeddys.

7. Sbwriel ar y strydoedd

Pa mor aml mae strydoedd ym mhentrefi eraill yn cael ei glanhau. Pam nad yw sbwriel yn cael eu codi wrth iddynt gael ei gollwng wrth hel bocsys ailgylchu. Hefyd problemau gyda baw ci, ydi'n bosib rhoi rhagor o finiau o gwmpas y lle? Angen cysylltu gyda Chyngor Gwynedd ynghylch a hyn.

8. *Sedd wag Morfa Nefyn*

Rhybydd Cyngor Gwynedd wedi mynd fyny.

9. *Golau Stryd Ystad Bryn, Morfa Nefyn*

Y cynghorwyr angen gwybod pan nad yw Cyngor Gwynedd yn rhoi golau ar stryd maent wedi ei fabwysiadau. Y Clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd.

10. *Sedd Edern*

Croseo i Alan Griffith o Edern

11. *Praesept ar gyfer 2016/17*

Y praesept flwyddyn yma i godi yr un gradda a flwyddyn diwethaf sef 1.6%

12. **Ceisiadau Cynllunio**

*C15/1332/42/RC – Diddymu cytundeb 106 (person lleol) Ty Cerrig Nefyn. – Dim gwrthwynebiad*

*C15/1357/42/LL – Trosi adeilad allanol presennol i ffurfio rhan o'r uned breswyl bresennol , Cae Gwrli, Morfa Nefyn – Dim gwrthwynebiad.*

*C15/1238/42/LL – Creu safle carafanau teithiol ar gyfer 27 o unedau ynghyd ac adeiladu bloc toiledau, cawod a gosod tanc septig. Cefn Edeyrn Edern* - Y clerc i ysgrifennu i adain Cynllunio yn datgan pryderon ynglŷn ar nifer gan fod y ffordd yn gul ac yn brysur.

**Gohebiaeth**

**13.0** Diwrnod Partneriaeth Rhyfel Byd Cyntaf

**14.0** Canllaw i Gymryd Rhan - Goleufeydd 90ain Pen-blwydd y Frenhines - 21ain Ebrill 2016

**15.0** Adroddiad Betsi Cadwaladr

**16.0** Newyddlen Swyddfa Archwilio

**17.0** Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru

**18.0** Ymgynghoriad Cyhoeddus Fframwaith Strategol olynol Mwy na geiriau

**Ceisiadau am Gyfraniad**

Cyngor ar bopeth, Dawns i bawb, Apel y Ganolfan Awyr (symud ymlaen i gyfarfod mis Mawrth)

Capel Soar – Ysgol Sul - £ 333.96

Banc Bwyd Pwllheli – £500.00

O Ddrws i Ddrws – Dim cyfraniad.

Taliadau – Caniatad wedi ei roi i'r Clerc dalu'r isod.

- Cyflog S Jones £1667.17 a PAYE £692.59
- Cyflog y clerc a PAYE £520.00, £130.00
- *C Hughes – Gwaith Cwt Mynwent Nefyn - £1572.00*
- *D Parry – Mynwent Nefyn, Fron ac Peniel £403.00*
- *Griffith, Williams & Co - £84.18*
- *Dwr Cymru - £72.20*
- *G Williams - £160.00*
- *C Jones - £700.00*

CYFARFOD NESA 9fed o Chwefror 2016 – Ysgol Morfa Nefyn 7 y.h